# Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

# ADRODDIAD YNGHYLCH PRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU AR GYFER 2023/23

## Cefndir

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel Heddlu a Throseddu De Cymru ("PHTDC") sydd wedi ei gynnwys yn Atodlen 5, Paragraff 3(2) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Y Ddeddf). Rhaid i'r Panel gyflwyno adroddiad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch y praesept arfaethedig.

## Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig 2023/24

Hysbysodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru'r PHTDC ar y 31ain Ionawr 2023 ynghylch y Cynnig Praesept ar gyfer 2023/24.

Cyfarfu'r PHTDC ar ddydd Mawrth y 7fed o Chwefror 2023 er mwyn adolygu'r Praesept ac i adrodd ar y praesept arfaethedig. Mae copi o'r adroddiad sy'n cynnwys manylion y Praesept arfaethedig ar gael ar dudalennau PHTDC ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Dolen i'r Adroddiad Praesept

https://www.merthyr.gov.uk/media/8972/committee-report-february-2023.pdf

## Yr Adroddiad

Ystyriodd PHTDC y cynnig Praesept a phenderfynodd beidio â rhoi feto arno. Mae gan y Comisiynydd felly'r hawl i weithredu ei gynnydd arfaethedig sydd yn darparu cynnydd yn y Praesept o £1.86 y mis i eiddo sy'n cyfateb i Fand D yn 2023/2024, sy'n cyfateb i gynnydd o 7.4% i gyfradd 2022/2023.

## Argymhellion

Ystyriodd PHTDC bod y cynnig praesept yn uchel iawn ac wrth gymeradwyo’r cynnig cydnabuwyd ei fod yn gosod pwysau ariannol pellach ar y cyhoedd sy’n talu Treth Gyngor yn Ne Cymru. Derbyniwyd gan BHTDC serch hynny bod y cynnydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr heddlu’n cael eu hariannu’n ddigonol. Mynegwyd siom gan BHTDC bod y baich ariannol o dalu am Heddlu effeithiol yn cael ei throsglwyddo’n araf o’r llywodraeth ganolog i’r cyhoedd yn fwy cyffredinol drwy’r praesept.

Wrth ddod at benderfyniad, cydnabuwyd gan BHTDC y diffyg ariannu mewn meysydd megis Fformiwla Ariannu’r Heddlu, Capital City Funding a’r defnydd o’r ardoll brentisiaethau ac i’r perwyl hynny cadarnhaodd ei ymrwymiad i gefnogi’r Comisiynydd wrth iddo ymateb i’r diffygion hyn.

Serch hynny croesawodd PHTDC ymroddiad yr heddlu i gynnal plismona’r rheng flaen yn benodol plismona yn y gymdogaeth.



Arwyddwyd: …………………………………………………

Cadeirydd Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

Dyddiedig: 7fed Ionawr 2023